

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Tregaron, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 16 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Tregaron, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 16 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, ymarferydd cyffredinol, nyrs gofrestrdig ac adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Meddygfa Tregaron yn anelu at roi profiad o ansawdd uchel i'w chleifion. Roedd y practis yn gwasanaethu cymuned wledig ac mae'n gweithio'n galed i ddatblygu a chynnal cydberthnasau da â chleifion, gwasanaethau perthynol i iechyd a gwasanaethau cymunedol eraill.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais, garedig a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Gwelsom y staff yn darparu gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol a chyfredol yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r ystafell aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud cofnod o ddewis iaith cleifion yn eu cofnodion
- Ychwanegu gwybodaeth "dywedoch chi, gwnaethon ni" at yr ardal cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tîm brwdfrydig a oedd yn gwerthfawrogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth lleol fel rhan o'r gymuned
- Roedd gwybodaeth am iechyd gynhwysfawr, diddorol a dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar gael mewn amryw o fformatau
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y practis mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau diogel ac effeithiol. Roedd pob ardal yr oedd y cleifion yn ei gweld yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl i'r staff a'r cleifion yn y practis.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym o safon dda.

Roedd polisi diogelu plant ac oedolion agored i niwed ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gosod arwydd ar y cyfarpar brys a'r cwpwrdd meddyginiaeth er mwyn gallu dod o hyd iddynt yn rhwydd
- Rhoi system ar waith ar gyfer atgoffa cleifion nad ydynt yn rhai da am fynychu'r feddygfa am eu hapwyntiadau, fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd clinigol glân, taclus a threfnus iawn.
- Archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau ac iechyd a diogelwch cyfredol
- System adolygu meddyginiaeth er mwyn sicrhau y caiff anghenion y cleifion eu hadolygu'n rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Gwelsom grŵp o staff a oedd yn cydweithio'n dda ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol. Gwelsom fod yr hyfforddiant yn gyfredol ar y cyfan a bod tystysgrifau yn cael eu cadw i ddangos hyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu amserlenni'r polisi cwynion er mwyn adlewyrchu Gweithio i Wella y GIG
- Archifo polisiau a phrosesau nad ydynt yn gyfredol
- Ailgyflwyno cyfarfodydd rheolaidd a chymryd cofnodion ohonynt

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- System ar waith ar gyfer monitro ac adolygu cydymffurfiaeth â pholisi yn rheolaidd
- Amgylchedd cynhwysol lle'r oedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi pryderon
- Cydweithio'n dda fel tîm er mwyn sicrhau bod eu cleifion yn cael gofal o safon uchel.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 27 o holiaduron cleifion wedi'u cwblhau. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Meddygon a nyrsys rhagorol... ffodus iawn"

"Gofal a sylw o'r radd flaenaf. Rydym yn ffodus iawn o gael meddygon a nyrsys, staff y dderbynfa a staff gweinyddol mor hyfryd yn Nhregaron"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

"Mwy o apwyntiadau wyneb-yn-wyneb"

"Sicrhau bod y presgripsiynau'n cyrraedd y fferyllfa, gan fod oedi weithiau ac mae'n rhaid i fy nhad fynd yno i ofyn amdanynt."

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hiechyd eu hunain gan fod cyngor iddynt ar sut i hybu eu hiechyd ar gael ar sgrin deledu yn yr ystafell aros ac ar daflenni yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori a oedd yn cael eu rhoi i'r cleifion gan y staff.

Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod ystod eang o wybodaeth a chyngor hybu iechyd dwyieithog cyfredol ar gael i'r cleifion. Roedd y wybodaeth hon yn cyfeirio at wybodaeth sgrinio lechyd Cyhoeddus Cymru, gwybodaeth a chymorth trydydd sector a gwybodaeth a mentrau a gaiff eu rhedeg gan y bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom hefyd siarad â nyrs y practis am y ffordd yr oedd mentrau iechyd yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo yn y practis. Dywedwyd wrthym fod ystod o fentrau iechyd ar waith i hybu iechyd a llesiant, gan gynnwys clinig cyn-diabetes.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod ein taith dywys o'r lleoliad, roedd yr ystafelloedd ymgynghori a thrin wedi'u lleoli oddi wrth yr ardal aros. Roedd drysau'r ystafelloedd clinig ar gau bob amser yn ystod apwyntiadau ac roedd llenni ym mhob un er mwyn sicrhau urddas cleifion yn ystod archwiliadau.

Gwelsom bosteri drwy'r practis a oedd yn cynnig hebryngwyr i gleifion a oedd angen hynny. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i hebryngwyr yn ddiweddar.

Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli tu ôl i sgrin ac yn yr ardal aros fawr ar y llawr gwaelod, gyda digon o le i'r cleifion eistedd. Gwelsom arwydd a oedd yn cynnig yr opsiwn i'r cleifion siarad â staff y dderbynfa yn breifat er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Roedd yr holiaduron cleifion a dderbyniwyd yn dangos fod 70% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn cytuno eu bod wedi gallu siarad â staff y dderbynfa heb iddynt gael eu clywed. Gwelsom aelodau o'r staff yn diogelu preifatrwydd cleifion yn yr ystafell aros drwy ganiatáu iddynt siarad yn gyfrinachol ac allan o glyw aelodau eraill o'r staff a chleifion eraill.

Ymdriniwyd â galwadau brysbennu ac apwyntiadau dros y ffôn oddi wrth y dderbynfa er mwyn sicrhau preifatrwydd rhag cleifion ac aelodau eraill o'r staff.

Roedd yn amlwg o'n sgysiau â'r staff fod y practis yn gweithio'n galed i geisio diwallu anghenion cleifion unigol. Dywedwyd wrthym fod dolen sain wedi'i gosod yn y practis, a bod arwyddion yn rhoi gwybod i'r cleifion am hyn.

Roedd yn amlwg o'n canfyddiadau yn ystod yr arolygiad bod cynnig dwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, ar gael i ddiwallu anghenion pobl yr ardal. Clywsom y staff a'r cleifion yn siarad Cymraeg a Saesneg. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom nad oedd dewis iaith wedi'i nodi ar y cofnodion hynny. **Rydym yn argymhell y dylid nodi dewis iaith cleifion ar gofnodion y cleifion er mwyn iddynt gael gafael ar ofal meddygol yn eu dewis iaith.**

Er i ni weld tystiolaeth o gyfraddau isel o ran cleifion na fynychodd eu hapwyntiad yn y practis, nodwyd gennym nad oedd system ar waith i atgoffa cleifion sy'n wael am fynychu apwyntiadau fod eu hapwyntiad ar y gorwel. **Rydym yn argymhell y dylid rhoi system ar waith i annog y cleifion hyn i fynychu eu hapwyntiadau.**

Gwybodaeth i gleifion

Gwnaethom edrych ar wefan y practis a gwelsom ei bod yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys oriau agor y practis, rhestrau o staff a gwybodaeth am sut i drefnu apwyntiadau, brechiad rhag y ffliw a phresgripsiynau rheolaidd ar-lein. Roedd y wefan hefyd ar gael mewn sawl iaith.

Roedd proses gwyno Gweithio i Wella y GIG a gweithdrefn gwyno'r practis ei hun wedi'u harddangos yn yr ardaloedd aros yn y lleoliad. Roedd y polisi cwynion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys yr aelod o'r staff sy'n gyfrifol am reoli'r cwynion a'r amserlenni bras ar gyfer darparu ymateb. Nodwyd gennym fod yr amserlenni ar weithdrefn y practis yn gyson â pholisi Gweithio i Wella y GIG. **Rydym yn argymhell y dylid alinio dyddiadau ym mholisi cwynion y practis er mwyn adlewyrchu Gweithio i Wella i sicrhau cysondeb.**

Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis a'r gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael ar wefan y practis, yn y daflen i gleifion ac ym mynediad y feddygfa.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Roedd Meddygfa Tregaron ar agor rhwng 8:00am a 6:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd pob cais am apwyntiad dros y ffôn yn cael ei frysbennu gan feddyg teulu ar yr un diwrnod ac roedd cleifion yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb ar sail anghenion clinigol neu os byddai'r ymarferydd cyffredinol yn teimlo y dylid eu ffafrio. Dywedwyd wrthym fod hyn yn golygu bod y mwyafrif o'r cleifion a oedd yn trefnu apwyntiad dros y ffôn yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn y diwrnod hwnnw. Roedd apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw ar gael ar gyfer rhai apwyntiadau gyda'r nyrs hefyd. Dywedwyd wrthym y byddai'r meddygon teulu yn sicrhau bod apwyntiadau brys ar yr un diwrnod ar gael ar gyfer y cleifion hynny sydd angen cymorth brys.

Dywedwyd wrthym fod y meddyg teulu ar ddyletswydd yn mynd i'r ysbyty cymunedol yn ddyddiol ac roedd ymweliadau cartref hefyd ar gael ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'w cartref.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis. Pan holwyd am eu profiad o drefnu apwyntiad brys, nododd 17 o'r cleifion eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' y gallant gael apwyntiadau brys ar

yr un diwrnod. Fodd bynnag, roedd pedwar claf yn anghytuno â hyn. Dywedodd 25 o'r ymatebwyr fod eu profiad o drefnu apwyntiad cyffredin yn 'dda'.

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda ac yn gwneud addasiadau yn unol â'u hanghenion.

Roedd y practis yn gwbl hygyrch i bob claf. Roedd gan y brif fynedfa ddrysau llydan a oedd yn arwain at ardal aros fawr. Roedd toiled ar gael i gleifion anabl. Roedd meddygfa hygyrch wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion a thafleuni ar gael mewn fersiwn print bras a fersiwn hawdd ei ddarllen.

Hawliau pobl

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith a oedd yn cyfeirio at y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a'r 10 nodwedd warchoddedig. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth a dywedodd y partner meddyg teulu wrthym am raglen i hyrwyddwyr er mwyn sicrhau bod hawliau yn cael eu cynnal.

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i gleifion ag anghenion a gofynion iaith amrywiol.

Yn dilyn trafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg bod y practis yn gweithio'n galed i gynnal hawliau cleifion trawsryweddol. Dywedodd y partner meddyg teulu wrthym ei fod yn cynnal clinig trawsryweddol yn y practis a'i fod yn darparu cymorth i gleifion trawsryweddol ar gyfer poblogaeth ehangach Ceredigion. Nodwyd bod hyn yn arfer da.

Prin oedd y lleoedd parcio gan fod y practis wedi'i leoli yng nghanol y dref; fodd bynnag, dywedodd staff y practis wrthym fod ganddynt gadair olwyn i gludo cleifion rhwng y practis a'r car pe byddai angen.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd blwch sylwadau ac awgrymiadau ar gael yn yr ystafell aros i'r cleifion roi adborth a / neu awgrymiadau. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn ystyried unrhyw sylwadau neu adborth, ac y byddai'n cymryd camau mewn ymateb iddynt pe byddai'n briodol gwneud hynny. **Rydym yn argymhell y dylid datblygu bwrdd gwybodaeth / gweledol “dywedoch chi, gwnaethom ni” er mwyn dangos y newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth gan gleifion.**

Roedd pwyslais ar ymdrin â chwynion yn uniongyrchol er mwyn gallu datrys materion cyn gynted â phosibl ac osgoi unrhyw angen i'w huwchgyfeirio. Roedd pob cwyn yn cael ei chofnodi, ei rhannu â rheolwr y practis a'i phrosesu'n amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis mewn adeilad deulawr gyda meddygfa / ystafell drin ac ardaloedd cymunedol hygyrch ar y llawr gwaelod ac ystafelloedd trin ac ystafelloedd gweinyddol ychwanegol ar y llawr cyntaf. Gwelsom fod yr ardaloedd a oedd yn cael eu defnyddio gan y cleifion a'r staff yn daclus, mewn cyflwr da ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd yr ardaloedd hyn yn amlwg yn lân.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis.

Roedd toiledau ar gael i'w defnyddio gan y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir ar eu cyfer ac roeddent yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd y practis, a oedd yng nghefn gwlad Ceredigion, wedi'i leoli tua 30 munud o'r adran ddamweiniau ac achosion brys agosaf wrth deithio mewn cerbyd. Roedd y practis yn cael ei gefnogi gan y bwrdd iechyd i ddarparu gofal brys ychwanegol i'r gymuned. Roedd y practis yn cyflogi uwch-ymarferydd parafeddygol llawn amser i gefnogi gofal meddygol aciwt cyn i gleifion gael eu trosglwyddo i leoliad mwy priodol. Dywedwyd wrthym fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n dda â'i gilydd er mwyn sicrhau bod y cleifion mor ddiogel â phosibl, a bod cydberthynas waith da rhwng y staff clinigol, yr ambiwlans awyr ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.

Cawsom gopi o gynllun parhad busnes y practis. Roedd y cynllun yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chyfredol yn unol â gweithdrefnau'r bwrdd iechyd lleol.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg y practis, gan gynnwys asesiad risg amgylcheddol, iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain ar waith, yn cynnwys camau gweithredu ac roeddent yn cael eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân. Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Dangosodd y staff y ffolder digwyddiadau o bwys sydd ar waith yn y practis. Roedd y ffolder hon yn gadarn ac yn ddigon manwl.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Yn ystod ein taith dywys o'r practis, gwelsom fod prosesau atal a rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n dda yn y lleoliad. Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith ac roedd arweinydd Atal a Rheoli Heintiau penodedig yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod newydd o staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a bod arolygiadau / archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu gweithredu a'u dogfennu gan yr arweinydd atal a rheoli heintiau a'i fod yn rhannu'r hyn a ddysgwyd ohonynt.

Roedd ardaloedd y cleifion i'w gweld yn lân ac roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael i'r staff a'r cleifion. Roedd hylif golchi dwylo ar gael yn y toiledau i gleifion ac roedd gel alcohol ar gael yn yr ardaloedd cymunedol. Roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael ym mhob meddygfa ac roedd cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael hefyd.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ym mhob rhan o'r practis a oedd yn cynnwys manylion am bwysigrwydd defnyddio cyfleusterau hylendid dwylo yn gywir.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei storio a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn ddiogel yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Wrth adolygu ffeiliau'r staff, gwelsom dystiolaeth o frechiadau cyfredol rhag Hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol yn y practis.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n briodol. Roedd Cyffuriau a Reolir, sydd â gofynion rheoli llym a phenodol iawn, yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y stoc yn cael ei gwirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymheredd priodol, gan gynnwys y rhai yr oedd angen eu cadw yn yr oergell. Hefyd, gwelsom gofnodion yn dangos bod tymheredd yr oergell meddyginiaethau wedi cael ei wirio'n rheolaidd.

Roedd padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n briodol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod pob aelod o'r staff sy'n rhagnodi meddyginiaeth wedi ymgymryd â chwrs presgripsiynau rheolaidd y bwrdd iechyd lleol. Roedd meddyg teulu yn

cwblhau'r broses o ail-awdurdodi presgripsiynau rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod staff y practis yn cysylltu â chleifion sydd ar bresgripsiynau rheolaidd hirdymor er mwyn adolygu'r feddyginiaeth a bod hyd y presgripsiwn yn cael ei leihau nes ei fod wedi cael ei adolygu.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd y practis wedi penodi arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion y bwrdd iechyd ar gael i'r staff, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cyfredol unigolion dynodedig yn y bwrdd iechyd y gellid cysylltu â nhw os oedd gan y staff unrhyw bryderon am ddiogelu. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol. Roedd y staff yn gwybod sut i nodi arwyddion bod oedolion a phlant agored i niwed yn cael eu cam-drin. Nid oedd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol pwy oedd arweinydd diogelu'r practis na sut yn union i fynd ati i godi pryderon yn ymwneud â diogelu. **Rydym yn argymhell y dylid rhannu mwy o wybodaeth ag aelodau newydd o staff er mwyn cadarnhau eu cyfrifoldebau o ran rhannu gwybodaeth, dogfennu pryderon yn ymwneud â diogelu a sut i gysylltu ag asiantaethau ac unigolion perthnasol.**

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd yn ymddangos bod yr holl gyfarpar meddygol a wiriwyd mewn cyflwr da pan gynhaliwyd yr arolygiad.

Roedd gweithdrefnau clir ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR).

Roedd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis. Er bod aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod ble roedd y cyffuriau a'r cyfarpar yn cael eu storio, nid oedd y cwpwrdd wedi'i labelu. **Rydym yn argymhell y dylid labelu'r cwpwrdd hwn er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu dod o hyd i'r cyfarpar yn gyflym mewn argyfwng.**

Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd trefniadau addas ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelwch data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt a gwelwyd tystiolaeth o hyfforddiant y staff.

Gwnaethom adolygu proses cais gwrthrych am fynediad at ddata ar gyfer cleifion a gwelsom ei bod yn anghyson ac yn dibynnu ar p'un a wnaed y cais wyneb yn wyneb neu o bell. **Rydym yn argymhell y dylid adolygu proses cais gwrthrych am fynediad at ddata er mwyn sicrhau cysondeb, ni waeth pa ffordd y gwnaed y cais.**

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion meddygol electronig y cleifion. Roedd camau diogelu wedi'u cymryd i atal mynediad anawdurdodedig ac roeddent yn hawdd eu defnyddio. Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym o ansawdd da gydag elfen naratif gryf a chynlluniau a oedd yn hawdd i'w dilyn. Roeddent yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am yr unigolyn, gan gofnodi pob cysylltiad â'r claf, dyddiad pob apwyntiad a'r math o driniaeth a roddwyd, ac unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod pob apwyntiad.

Fodd bynnag, gwnaethom roi gwybod i'r staff fod angen gwneud gwelliannau o ran cysylltu'r cyffuriau a ragnodwyd â'r broblem glinigol a nodwyd yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd atgyfeiriadau gan y dderbynfa at wasanaethau perthynol i iechyd eraill wedi cael eu dogfennu gyda chodau Read yn nodiadau'r cleifion. **Rydym yn argymhell y dylid ychwanegu codau Read at gofnodion y cleifion i nodi atgyfeiriadau gan y dderbynfa at wasanaethau perthynol i iechyd eraill er mwyn gallu eu monitro'n effeithiol.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Caiff Meddygfa Tregaron ei rheoli gan ddau uwch bartner sy'n feddygon teulu a chânt eu cefnogi gan reolwr y practis i redeg y practis o ddydd i ddydd.

Roedd yr aelodau o staff yn barchus a chwrtais. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus wrth godi unrhyw faterion â rheolwr y practis neu bartner meddyg teulu ac yr eir i'r afael ag unrhyw faterion mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer y gymuned wledig.

Roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi gan eu cydweithwyr.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r uwch-aelodau o'r staff fod y staff yn glir o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom dystiolaeth fod strwythur rheoli clir ar waith yn y practis.

Rhoddodd rheolwr y practis gofnodion y cyfarfodydd staff a gynhaliwyd yn y practis i ni ynghyd â gwybodaeth amdanynt. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni y gallai'r staff gael gafael ar gofnodion pob cyfarfod drwy yriant cyfrifiadurol a rennir. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn cyfarfod â'r meddygon teulu sy'n bartneriaid bob wythnos. **Gwnaethom nodi nad oedd y cyfarfodydd staff wedi'u cynnal yn rheolaidd ac rydym yn argymhell y dylid aildrefnu cyfarfodydd yn rheolaidd a rhannu'r cofnodion.**

Wrth adolygu polisiau'r practis, gwelsom fod sawl fersiwn gwahanol o bolisiau ar gael i'r staff. Nid oedd rhai ohonynt wedi cael eu dyddio nac yn cynnwys rhif rheoli fersiwn ac nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod ble roedd y polisiau diweddaraf yn cael eu storio. Gwnaethom adolygu'r polisiau a oedd ar gael ar y system ddiweddaraf ac roeddent wedi cael eu dyddio ac yn cynnwys dyddiad adolygu. **Rydym yn argymhell y dylid archifo'r hen bolisiau neu bolisiau nad ydynt yn weithredol mwyach er mwyn i'r staff allu cael gafael ar fersiynau cyfredol o'r polisiau.**

Roedd rheolwr y practis wedi mynychu cyfarfodydd grŵp clwstwr lleol, lle'r oedd pob practis meddygon teulu lleol Gogledd Ceredigion yn cyfarfod i rannu'r hyn y maent wedi'u dysgu. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn ymgysylltu'n dda iawn â'r grŵp clwstwr a bod practisau yn cydweithio'n dda er mwyn cefnogi ei gilydd.

Y Gweithlu

Roedd y practis wedi penodi aelodau o staff derbynfa a staff gweinyddol newydd. Wrth drafod â'r staff, gwelwyd bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir, ar y cyfan, i gyflawni eu rolau penodol yn y practis. Roedd y staff wedi cael arfarniad blynyddol a / neu roedd cynlluniau ar waith i gwblhau'r rhain.

Nodwyd gennym fod nyrsys y practis yn ystyried eu hopsiynau ymddeol a dywedwyd wrthym fod cynlluniau dilyniant ar waith. Roedd gweithiwr cymorth gofal iechyd y practis yn cael ei gefnogi i hyfforddi fel nyrs.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Cawsom wybodaeth a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ac roedd cynlluniau ar waith i'r staff ddiweddarau eu hyfforddiant lle y bo'n gymwys.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau recriwtio ffurfiol ar waith.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff ar lefel sy'n briodol ar gyfer y gwaith y maent yn ymgymryd ag ef.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Tregaron, Tregaron, Ceredigion

Dyddiad yr arolygiad: 16 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Tregaron

Dyddiad yr arolygiad: 16 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion pob claf.	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Bydd y practis yn diweddarau'r canllawiau yn y Weledigaeth ar gyfer Dewis iaith i'w hychwanegu at gofnodion y cleifion.	Bydd pob aelod o staff y dderbynfa yn ychwanegu'r canllaw hwn wrth gofrestru pob claf newydd ac wrth i gleifion presennol alw'r feddygfa.	Canllawiau i gael eu hychwanegu - Mehefin 2023. Rhoi'r canllawiau ar waith - parhaus.
Rhaid i'r practis ddiwygio'r amserlenni ym mholisi cwynion y practis er mwyn adlewyrchu Gweithio i Wella y GIG er mwyn sicrhau cysondeb.	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol Safon 3.4	Diweddarau'r polisi ac ychwanegu'r fersiwn ddiweddaraf at y wefan.	Rheolwr y Practis	Mehefin 2023.

Rhaid i'r practis ddatblygu a rhannu gwybodaeth / bwrdd gweledol “dywedoch chi, gwnaethom ni” er mwyn dangos y newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth.	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Bydd y practis yn ychwanegu gwybodaeth at y sleidiau gwybodaeth ar y teledu yn yr ystafell aros ac ar gyfryngau cymdeithasol.	Rheolwr y Practis	Mehefin 2023.
Rhaid i'r practis sicrhau mai dim ond y fersiynau diweddaraf o'r polisiau sydd ar gael i'r staff. Rhaid i'r rhain fod wedi'u dyddio ac yn cynnwys dyddiad adolygu.	Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Bydd yr hen bolisiau yn cael eu harchifo a bydd e-bost yn cael ei anfon at bob aelod o'r staff a fydd yn nodi lleoliad polisiau'r practis sydd wedi cael eu diweddarau ar y gyriant a rennir. Byddant hefyd yn cael y wybodaeth hon wyneb yn wyneb.	Rheolwr y Practis	Mehefin 2023.
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cyfarfodydd staff eu cynnal, bod cofnodion yn cael eu cymryd ac y rhennir y nodiadau.	Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Mae cyfarfodydd eisoes yn cael eu cynnal a chaiff cofnodion eu cymryd a'u rhannu. Bydd y practis yn cynnal cyfarfodydd yn fwy cyson.	Bydd angen i bob aelod o'r staff fynychu'r cyfarfodydd perthnasol. Rheolwr y Practis i'w trefnu a'r ysgrifennydd i gymryd cofnodion.	Parhaus.
Rhaid i'r practis labelu'r cwprdd cyfarpar brys er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu dod o hyd i'r	Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Ychwanegu'r rhestr o gyfarpar brys at y cwprdd a'i e-bostio at bob aelod o'r staff.	Nyrs y Practis.	Mehefin 2023.

cyfarpar yn gyflym mewn argyfwng.				
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn ymwybodol pwy yw'r arweinydd diogelu yn y practis a sut i wneud atgyfeiriad diogelu.	Safon 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg	Mae e-bost wedi cael ei anfon at bob aelod o staff ac maent wedi cael gwybod wyneb yn wyneb. Enw'r arweinydd diogelu wedi cael ei ychwanegu at y posteri yn yr ystafelloedd clinigol.	Dirprwy Arweinydd Diogelu	Wedi'i gwblhau.
Rhaid i'r practis ddiwygio proses cais gwrthrych am fynediad at ddata er mwyn sicrhau y gofynnir am ffurf o adnabod cleifion ni waeth pa ffordd y gwnaed y cais.	Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Gofynnir am ffurf o adnabod cleifion ar gyfer pob cais am fynediad.	Pob aelod o staff.	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r practis gysylltu'r cyffuriau a ragnodir â'r broblem glinigol yng nghofnodion y cleifion.	Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Nid yw'r practis yn defnyddio'r dull seiliedig ar broblemau ar hyn o bryd, ac mae'n gweithio gyda darparwr y System er mwyn galluogi'r clinigwyr i gysylltu'r feddyginiaeth â'r cyflwr.	Darparwr y system a meddyg teulu	Mehefin 2024.
Rhaid i'r practis ychwanegu codau Read at gofnodion y cleifion ar gyfer atgyfeiriadau gan y dderbynfa at wasanaethau	Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a	Diweddarau'r canllawiau ar gyfer staff y dderbynfa wrth gyfeirio.	Rheolwr y Practis	Medi 2023.

perthynol i iechyd eraill er mwyn gallu eu monitro'n effeithiol.	Thechnoleg Cyfathrebu			
Rhaid i'r practis rhoi system ar waith i annog y cleifion hynny sydd â chofnod gwael o fynychu apwyntiadau i fynychu'r apwyntiadau y maent yn eu trefnu.	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Bydd y practis yn monitro'r unigolion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau dros gyfnod o dri mis ac yn datblygu polisi ar beidio â mynychu apwyntiadau gyda negeseuon atgoffa addas i gleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau.	Meddyg teulu a Rheolwr y Practis	Medi 2023.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Siôn James

Teitl swydd: Uwch-bartner

Dyddiad: 24/04/2023